



Yr Ap Sŵn – Canllawiau Defnyddiwr

www.thenoiseapp.com

Lawrlwytho

I lawrlwytho'r ap, ewch i'r "App Store" ar gyfer defnyddwyr iPhone neu'r "Play Store" ar gyfer defnyddwyr Android. Chwiliwch am y "Yr Ap Sŵn" a chliciwch "Cael" neu "Gosod" i lawrlwytho'r ap. Ar gyfer dyfeisiau Android, chwiliwch am "Yr Ap Sŵn RHE" a dewiswch "Gosod" ar ôl dewis yr ap.

Cofrestru

Agorwch yr ap a chliciwch ar "Cychwyn" ac yna "Creu Cyfrif". Llenwch y manylion a dewiswch eich Darparwr Gwasanaeth o'r ddewislen. Os nad yw eich Darparwr Gwasanaeth yno, mi wnawn ni gadw eich manylion hyd nes y bydd yn cael ei gofrestru fel darparwr. Cytunwch i amodau'r gwasanaeth a chliciwch "Creu Cyfrif". Bydd e-bost yn cael ei anfon i'ch cyfeiriad e-bost yn gofyn i chi gadarnhau eich cyfrif. Unwaith y bydd eich cyfrif wedi'i gadarnhau, gallwch wedyn gychwyn cyflwyno adroddiadau.

Unwaith y bydd eich cyfrif wedi'i gadarnhau, logiwch mewn i'r ap ar eich ffôn. Bydd hyn yn eich annog i fewnbynnu eich cyfeiriad a chwblhau'r broses gofrestru.

Os yw eich Darparwr Gwasanaeth yn rhedeg polisi sydd eisoes wedi ei gymeradwyo, byddwch yn cael gwybod drwy e-bost ac ar ddiwedd pob adroddiad a gyflwynwyd gennych nad ydych eto wedi cael eich cadarnhau gan eich Darparwr Gwasanaeth. Bydd eich adroddiadau'n cael eu storio ar eich dyfais ond ar gyfer ymchwilio iddynt, rhaid i chi gysylltu gyda'ch Darparwr Gwasanaeth a gofyn iddynt eich cymeradwyo.

Iaith

I newid iaith, unwaith y byddwch wedi logio i mewn, dewiswch y botwm dewislen ar y chwith ar dop y sgrin "Dyddiadur Sŵn". Fe welwch yr opsiwn "Iaith" a gallwch ddewis eich iaith.

Cyflwyno Cwyn

1 . Cofnodi - ar ôl logio mewn am y tro cyntaf byddwch yn cael eich annog i wneud recordiad. I gychwyn recordio, pwyswch a daliwch y botwm eicon meicroffon (eicon crwn) ar waelod y sgrin. Nid oes angen i chi recordio'r digwyddiad i gyd - dim ond ciplun cynrychioliadol o'r sŵn fel mae'n digwydd. Gallwch recordio hyd at 30 eiliad os oes angen, gallwch wneud sawl recordiad unigol o 30 eiliad i'w hychwanegu ar yr un achos.

Wrth recordio ar iPhone, byddwch yn gweld ton yn ffurfio gydag amserwr sy'n symud ar draws y sgrin. Ar ddyfeisiau Android, bydd y cyfrifwr yn cyfrif at 30.

Pan fyddwch yn symud eich bys neu eich bawd, bydd yr ap yn gorffen recordio. Derbyniwch, gwrthodwch neu chwaraewch y recordiad.

Wrth i'r gŵyn gael ei derbyn, byddwch yn cael eich annog i ddarparu mwy o wybodaeth am y sŵn rydych yn ei glywed.

2. Ffynhonnell – yn gyntaf sut fath o sŵn ydi o? Sgroliwch a dewiswch ffynhonnell o'r rhestr a ddarperir

3. Lleoliad - nesaf, lle recordiwyd y sŵn gennych? Dewiswch ardal o'ch eiddo o'r rhestr a ddarperir a symudwch i'r sgrin nesaf.

4. Dwysedd a Sylwebaeth - rydych wedyn yn cael cais i roi graddfa i lefel y sŵn. Oddi tanodd, gallwch ychwanegu sylwadau ar sut mae'r sŵn yn effeithio arnoch, er enghraifft, gallwch nodi "cevais fy neffro gan y sŵn ac mae'n fy rhwystro rhag mynd yn ôl i gysgu". Mae'r wybodaeth hon ynghylch sut mae'r sŵn yn effeithio arnoch yn bwysig iawn, felly ceisiwch ychwanegu cymaint o fanylion â phosib.

5. Cyfeiriad - Yn olaf, mewnbynnwch y cyfeiriad o ble mae'r sŵn, yn eich tyb, chi yn dod. Sicrhewch os gwelwch yn dda bod y cyfeiriad yn gywir os ydych wedi defnyddio'r cyfleuster GPS Google Maps.

6. Cadarnhau – Os ydych yn hapus gyda'r wybodaeth a gyflwynwyd ar y sgrin gadarnhau, pwyswch y 'botwm anfon adroddiad'. Byddwch yn derbyn nodyn cadarnhau yn dweud y bydd eich gwybodaeth yn cael ei hanfon i'r Darparwr Gwasanaeth yr ydych wedi ei ddewis. Os yw eich Darparwr Gwasanaeth â pholisi a gymeradwywyd ymlaen llawn, byddwch yn cael gwybod bryd hynny (oni bai bod y ddyfais oddi ar-lein sy'n golygu y byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau hynny pan fyddwch yn ailgysylltu i WiFi neu'n cael 3G/4G yn ôl).

7. Sgrin Dyddiadur Sŵn - bydd eich cofnod cyntaf yn poblogi eich dyddiadur sŵn sgrin hafan yr ap). Yr adroddiad diweddaraf fydd bob amser yn ymddangos ar frig y sgrin gyda'ch recordiau blaenorol yn cael eu dangos isod.

Ar y chwith i'r adroddiad yr ydych newydd ei gyflwyno, fe welwch symbolau. Bydd y ddau gyntaf yn ddwy saeth sy'n ymddangos fel petaent yn troi, mae hyn yn golygu ei fod yn dal i lwytho i fyny a bydd angen i chi adael yr ap ar agor er mwyn cwblhau'r broses. Hefyd, bydd modd i chi gadarnhau hyn drwy lwytho'r cylch sy'n troi ar yr ochr dde ar frig yr ap. Mae'r ail symbol posibl yn dangos tic mewn cylch sy'n golygu bod yr adroddiad wedi cael ei lwytho i fyny'n llwyddiannus i'ch Darparwr Gwasanaeth.

Os byddwch yn dewis un o'r cofnodion yn y dyddiadur, byddwch yn cael mynediad i ddwy sgrin – y 'manyllion' a'r 'gweithgaredd'.

Symudwch rhwng y ddwy sgrin gan ddefnyddio'r tabiau ar y brig.

Mae'r sgrin manylion (ar y chwith) yn darparu crynodeb o'r wybodaeth yn ymwneud â'r mynediad dyddiadur a ddewiswyd gennych. (Nodwch os gwelwch yn dda: nid ydym yn darparu cyfleuster i ddefnyddwyr chwarae'r recordiad yn ôl. Unwaith y bydd y recordiad wedi'i gyflwyno, dim ond swyddogion ymchwilio fedr wrando arnynt).

Ar waelod y sgrin, fe welwch "Ychwanegu Recordiad". Dyma lle gallwch ychwanegu recordiadau at gŵyn gyfredol er mwyn help i adeiladu eich achos. Byddwch hefyd yn cael eich annog i ychwanegu recordiadau at adroddiadau cyfredol wrth bwysu'r botwm recordio ar y sgrin hafan.

Yn y sgrin gweithgaredd fe welwch grynodeb o'r gweithgaredd yn ymwneud â'r cofnod hwnnw gennych chi a'r swyddog ymchwilio. Gallwch, eich dau/dwy hefyd ychwanegu sylwadau neu gynnal sgwrs trwy ddefnyddio'r bocs sylwadau ar y gwaelod. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i chi ychwanegu gwybodaeth arall yn dilyn y digwyddiad, er enghraifft, am faint wnaeth y sŵn barhau.

8. Be nesaf - pan fyddwch yn logio ymlaen nesaf, byddwch yn cael eich tywys i'ch dyddiadur sŵn. Parhewch i recordio a chadw cofnodion tra bod y broblem yn parhau.